

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Dyddiad Cyhoeddi: 10 Tachwedd 2015

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

STATWS: GWEITHREDU

CATEGORI: LLYTHYR GWEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL

Teitl: Trefniadau a phrosesau sy'n gysylltiedig ag archwiliad post-mortem o fabi yn dilyn marw-enedigaeth

Dyddiad dod i ben / Adolygu: Adolygiad o'r safonau Ionawr 2017

I'w weithredu gan:

Prif Weithredwyr Byrddau Iechyd
Penaethiaid Bydwreigiaeth Byrddau Iechyd
Penaethiaid Gwasanaethau Patholeg
Byrddau Iechyd

Er Gwybodaeth:

Coleg Brenhinol y Bydwraedd
Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r
Gynaecolegwyr
Prif Weithredwr Iechyd Cyhoeddus Cymru
Coleg Brenhinol Patholegwyr Cymru

Angen gweithredu erbyn: 1 Ionawr 2016

Gweler paragraff 5

Anfonir gan: Yr Athro Jean White – Prif Swyddog Nyrsio (Cymru)/Cyfarwyddwr Nyrsio GIG Cymru

Enw(au) Cyswilt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:

Polly Ferguson, Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio, Y Gyfarwyddiaeth Nyrsio, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd e-bost: OCNOMailbox@wales.gsi.gov.uk

Dogfen(nau) amgaeedig: Atodiad 1

1. Ysgrifennaf atoch i roi gwybod i chi am y cyhoeddiad '*Standards for the Arrangements and Processes Associated with Post-mortem Examination of a Baby Following a Stillbirth*'.
2. Mae'r safonau wedi'u datblygu gan y Gweithgor Cenedlaethol ar Farw-enedigaethau sef is-grŵp o Rwydwaith Mamolaeth Cymru, gyda mewnbwn sylweddol gan SANDS (*the Stillbirth and Neonatal Death Society*).
3. Bydd yn ofynnol i bob bwrdd iechyd sicrhau bod pob rhiant yng Nghymru sy'n profi marw-enedigaeth neu derfyniad beichiogrwydd hwyr babi dros 24 wythnos oed yn cael cynnig archwiliad post-mortem llawn (neu archwiliad cyfyngedig priodol), gan Batholegydd Amenedigol sydd â'r cymwysterau priodol.
4. Bydd yn ofynnol i fyrddau iechyd gynnal archwiliad blynyddol o'u perfformiad yn erbyn y safonau hyn, a gydlynir gan yr is-grŵp Patholeg Amenedigol (is-grŵp o'r Gweithgor Cenedlaethol ar Farw-enedigaethau) ac a adroddir i'r Gweithgor Cenedlaethol ar Farw-enedigaethau.
5. Bydd disgwyl i fyrddau iechyd roi cynlluniau ar waith i gydymffurfio â'r safonau erbyn 1 Ionawr 2016.
6. Adolygir y safonau ymhen blwyddyn i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r dystiolaeth gyfredol.
7. Cyhoeddir y safonau ar wefan y Rhwydwaith Mamolaeth <http://bit.ly/maternitynetworkwales>

Atodiad 1

Safonau ar gyfer y trefniadau a'r prosesau sy'n gysylltiedig ag archwiliad post-mortem o fabi yn dilyn marw-enedigaeth.

- 1) Bydd pob rhiant yng Nghymru sy'n profi marw-enedigaeth neu derfyniad beichiogrwydd hwyr o fabi dros 24 wythnos oed yn cael cynnig archwiliad post-mortem llawn (neu archwiliad cyfyngedig priodol), gan Batholegydd Amenedigol sydd â'r cymwysterau priodol.
- 2) Os gwrthodir archwiliad post-mortem llawn neu gyfyngedig, rhaid cynnig i'r rhieni archwiliad arbenigol o'r brych, wedi ei gynnal gan Batholegydd Amenedigol sydd â'r cymwysterau priodol.

- 3) Rhaid i'r person sy'n ceisio caniatâd ar gyfer y post-mortem fod wedi derbyn yr hyfforddiant post-mortem Cymru gyfan a bod wedi'i gofrestru ar y Gronfa Ddata Genedlaethol sydd yng ngofal adran patholeg bediatrig Ysbyty Athrofaol Cymru.
- 4) Bydd yn gam gofynnol* i rieni gael copi o'r daflen wybodaeth a ddarperir yng Nghymru, "*Deciding about a post-mortem: Information for parents*". Argymhellir y dylid cyflwyno'r daflen ategol a gynhyrchwyd gan SANDS hefyd.
- 5) Bydd y dogfennau caniatâd ar gyfer Cymru yn cael eu cwblhau i'r safon uchaf a bydd y copïau'n cael eu ffeilio fel a ganlyn:
 - Un copi i'r rhieni
 - Un copi i'w ffeilio yn y nodiadau meddygol
 - Un copi i gael ei anfon i'r adran batholeg gyda'r babi
- 6) Bydd pob rhiant yn cael copi o rif cyswllt lleol gydag enw person/personau sy'n gyfrifol am gydlynu'r trefniadau i gludo'r babi i Ysbyty Athrofaol Cymru.
- 7) Bydd gan bob Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn ar waith i gludo'r babanod yn brydlon i Ysbyty Athrofaol Cymru ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rheini gydol pob cam o'r broses.
- 8) Dylai pob Bwrdd Iechyd sicrhau bod person/personau dynodedig yn eu lle i fonitro hynt yr adroddiad ac i gyfathrebu â'r teulu.
- 9) Rhennir yr adroddiad post-mortem gyda'r teuluoedd cyn gynted â phosib o fewn 12 wythnos i gwblhau'r post-mortem.
- 10) Bydd yr Obstetregydd Ymgynghorol sy'n gyfrifol am ofal y fenyw yn trafod a rhannu'r adroddiad post-mortem gyda'r rhieni.
- 11) Dylid cynnal y cyfarfod hwn mewn amgylchedd priodol, ac nid mewn ystafelloedd clinigol.
- 12) Dylid caniatáu o leiaf awr ar gyfer yr apwyntiad hwn.
- 13) Dylai copi o'r adroddiad post-mortem fod ar gael i'r rheini os ydynt yn dymuno copi.
- 14) Dylid rhoi manylion cyswllt ymgynghorydd i'r rhieni er mwyn iddynt allu trefnu apwyntiad dilynol rhag ofn y bydd ganddynt gwestiynau pellach.

Safonau i'w Harchwilio:

- Cyfanswm y menywod sy'n profi marw-enedigaeth
- Nifer y menywod hyn sy'n cael cynnig post-mortem

- Nifer y menywod hyn sy'n derbyn post-mortem

Caiff y safonau hyn eu harchwilio gan Fyrddau Iechyd a chydlynir yr archwiliadau gan yr Is-grŵp Patholeg Amenedigol (is-grŵp o'r Gweithgor Cenedlaethol ar Farw-Enedgiaethau) a'u hadrodd i'r Gweithgor Cenedlaethol ar Farw-Enedgiaethau.

** Bydd y daflen hon ar gael cyn hir a bydd yn disodli'r daflen ; "A Guide to the Hospital Post-Mortem Examination of a Baby or Child". Yn y cyfamser, defnyddiwch y daflen hon.*